

## **Strategaeth Cymru Gyfan**

---

**Banc Datblygu Cymru ccc**

Medi 2017

## Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	3
1.1 Strategaeth Cymru Gyfan .....	3
2. Trefniadaeth a lleoliadau cyfredol .....	4
3. Strategaeth leoli ar gyfer Banc Datblygu Cymru.....	7
3.1 Amcanion y strategaeth leoli .....	7
3.2 Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (CGCB) .....	8
3.3 Lleoliadau swyddfeydd .....	9
3.3.1 Pencadlys Wrecsam .....	11
3.3.2 Caerdydd .....	13
3.3.3 Llanelli .....	13
3.3.4 Y Drenewydd, Aberystwyth a Llandudno .....	14
4. Lleoliadau a dulliau gweithredu eraill.....	15
5. Costau a gweithrediadau .....	16
5.1 Cyllid ariannu .....	16
5.2 Materion gweithredol.....	17
6. Amserlen weithredu .....	18

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Strategaeth Cymru Gyfan

Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod 'Banc Datblygu Cymru yn fanc ar gyfer Cymru gyfan' a'i fod am weld bod gan y Banc Datblygu bresenoldeb cryf nid yn unig yng Ngogledd Cymru ond ar draws Cymru gyfan.' Mae'r nodau hyn wrth wraidd y strategaeth ar gyfer Banc Datblygu Cymru.

Bu llawer o drafodaethau a dadlau ynglŷn â rôl y pencadlys newydd yn Wrecsam ond mae'n bwysig gosod yr ymrwymiad cadarn hwn ochr yn ochr â'r angen i wasanaethu busnesau ar hyd a lled Cymru gyfan ac nid canolbwyntio'n unig ar y ddwy brif swyddfa sydd wedi'u lleoli yn Nwyrain Cymru. Am y rheswm hwnnw, bydd y ddogfen hon yn edrych ar 'strategaeth Cymru gyfan' ar gyfer y Banc Datblygu ac yn ystyried sut y gall ddarparu mynediad effeithiol ac effeithlon at ei wasanaethau ym mhob rhan o Gymru.

Yn ogystal â lleoliadau ffisegol, mae'n bwysig hefyd ystyried mynediad ar-lein at y Banc Datblygu ac alinio hynny'n agosach â'r gefnogaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru trwy gyfrwng ei dimau rhanbarthol a Busnes Cymru.

Fel y rhan fwyaf o ranbarthau, mae gan Gymru hybiau / ganolfannau busnes a diwydiant naturiol a fydd, i raddau, yn penderfynu ar ledaeniad buddsoddiad. Fodd bynnag, polisi BDC fydd sicrhau bod busnesau ym mhob rhan o Gymru yn cael eu targedu. Bydd BDC yn dadansoddi data ar y bargeinion a gwblheir i gefnogi'r ardaloedd hynny sydd ar hyn o bryd yn derbyn buddsoddiad llai cymesur yn seiliedig ar nifer y busnesau bach a chanolig yn yr ardal, fel y bo'n briodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig ac yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd lle mae busnesau yn fwy gwasgaredig.

Bydd BDC yn anelu at hyrwyddo ei arian cyllido a'i gefnogaeth yn yr ardaloedd meysydd sy'n cael eu cefnogi lai er mwyn annog twf a chynyddu ffyniant. Bydd yr Uned Wybodaeth yn cynorthwyo i adnabod beth yw'r tueddiadau buddsoddi ar hyd a lled Cymru, a bydd hynny yn ei dro yn helpu i lywio strategaeth farchnata gref. Bydd cysylltiadau cyfathrebu wedi'u targedu yn hanfodol wrth gwrdd â'r amcan o wella'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd hyn. Er mwyn cefnogi hyn ymhellach, bydd BDC yn gweithio gyda thîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru er mwyn adnabod cyfleoedd i fod yn rhan o strategaeth gyfathrebu ehangach a fydd yn dangos sut mae BDC a LIC ar sail ehangach yn cyflawni effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i Gymru.

Mae gwella cyrhaeddiad ac ymwybyddiaeth o'r sefydliad ar sail genedlaethol a sicrhau bod presenoldeb corfforol ar hyd a lled Cymru yn her fawr i BDC. Mae buddsoddiad eisoes wedi cael ei ymrwymo i wneud gwelliannau sylweddol yn ein gallu TG i ddarparu cyfres o brosesau ar-lein er mwyn i ddarpar fenthycwyr gael mynediad at wasanaethau BDC o hirbell. Er efallai mai technoleg fydd fwyaf effeithiol o ran cynnig ateb hirdymor i hyn, mae BDC hefyd yn bwriadu darparu'r lefel o ryngweithio personol hynny sy'n gwahaniaethu'r sefydliad hwn o'i gymharu â benthycwyr masnachol. At hynny, bydd y strategaeth mewn perthynas â lleoliadau swyddfeydd a'r pencadlys yn ceisio mynd i'r afael â nifer o gyfleoedd er mwyn manteisio i'r eithaf ar fuddion busnes a gonestrwydd sefydliadol, tra ar yr un pryd, yn lliniaru costau.

Credwn y bydd y strategaeth leol ar gyfer Cymru gyfan yn cyflawni'r prif amcan o sicrhau bod y Banc Datblygu yn darparu'r lefel uchaf o gefnogaeth i'r economi ar draws pob sector a phob rhan o Gymru.


## 2. Trefniadaeth a lleoliadau cyfredol

Mae Cyllid Cymru yn fusnes bach a chanolig sy'n cyflogi 138 o bersonél (Awst 2017) yng Nghymru ac mae'r rhain yn cynnwys y swyddogaethau a'r lleoliadau canlynol ar hyd a lled Cymru:

Swyddogaeth	Caerdydd	Llanelli	Y Drenewydd	Llanelwy
Buddsoddiadau	41	7	1	5
Cydymffurfiaeth Risg & Chyfreithiol	15		1	2
Cyllid	13			
Swyddfa'r Prif Weithredwr, Strategaeth, Cyfathrebu, Gwasanaethau Cefnogol & AD	31		1	
Xénos	3	1		
Cymorth i Brynu Cymru	17			
<b>Cyfanswm</b>	<b>120</b>	<b>8</b>	<b>3</b>	<b>7</b>


**Tabl 1: Dadansoddiad o weithwyr Cyllid Cymru (Awst 2017)**

Dangosir y dadansoddiad fesul lleoliad yn ffigur 1 isod:



**Ffigur 1: Lledaeniad gweithwyr Cyllid Cymru Awst 2017**

Mae natur rôl y swyddogion buddsoddi yn golygu y byddant yn treulio llai o amser yn y swyddfa na'r staff cefnogol. Er y bydd gan y timau buddsoddi gyfeiriad prif swyddfa, byddant fel arfer yn treulio cryn dipyn o amser ar y ffordd, gan ymweld â busnesau a darparu gwasanaeth wyneb i wyneb i gwsmeriaid. Yr eithriad i hyn yw tîm Cymorth i Brynu Cymru sy'n cynnwys 17 o staff sydd wedi'u lleoli yn swyddfa Caerdydd ac maent wedi'u lleoli yn y swyddfa yn bennaf.



**Ffigur 2: Lledaeniad Poblogaeth Cymru 2010**

[http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160108201723/http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171780\\_275347.pdf](http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160108201723/http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171780_275347.pdf)

Yn Ffigur 2 uchod, gallwn weld bod poblogaeth Cymru wedi'i ganolbwyntio fwyaf yn y De Ddwyrain, gyda'r ardal fwyaf dwys yn y Gogledd Ddwyrain. Wrth baratoi ar gyfer creu'r Banc Datblygu a chydabod yr angen i wella mynediad at gyllid ar gyfer Cymru gyfan, gosododd Cyllid Cymru amcan busnes fel rhan o'i gynllun busnes 2017/18 i 'gynyddu y ddarpariaeth o fuddsoddiad rhanbarthol o leiaf 10% ymysg y 5 Awdurdod Unedol a fuddsoddir ynddynt leiaf.' Mae hyn yn cael ei fonitro'n agos trwy gydol y flwyddyn ac mae'n dangos cynnydd cyffredinol ar draws y pum rhanbarth yn Chwarter 1 o'i gymharu â'r un chwarter yn 16/17.

### **3. Strategaeth leoli ar gyfer Banc Datblygu Cymru**

#### **3.1 Amcanion y strategaeth leoli**

Mae creu Banc Datblygu yn gyfle delfrydol i ystyried strategaeth leol yn llawn sy'n diwallu anghenion busnesau Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill. Prif amcanion y strategaeth hon fydd:

- Sicrhau bod ardaloedd ar hyd a lled Cymru yn cael eu cynnwys - gan gynnwys cyswllt digidol ac wyneb yn wyneb â chwsmeriaid;
- Sicrhau bod y strategaeth leoli yn fforddiadwy ac yn cynnig gwerth am arian i fusnesau Cymru a'r trethdalwr;
- Galluogi'r sefydliad i recriwtio'r doniau gorau sydd ar gael a gwella ei berfformiad yn barhaus;
- Cefnogi'r nod strategol i alinio cefnogaeth Llywodraeth Cymru yn well trwy grantiau a Busnes Cymru gyda mynediad at gyllid drwy gyfrwng y Banc Datblygu tra hefyd yn mabwysiadu nodau ffocws newydd rhanbarthol Llywodraeth Cymru;
- Galluogi'r Banc Datblygu i ymateb yn gyflym i newidiadau yn amodau'r farchnad a datblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd i gefnogi economi Cymru.

Er mwyn cyflawni'r amcanion uchod, bydd y sefydliad yn mabwysiadu nifer o strategaethau a phrosiectau, gan gynnwys; y strategaeth leoli; strategaeth ddigidol; ffrydiau gwaith datblygu cynnyrch newydd; yr Uned Wybodaeth; llywodraethu corfforaethol; prosiect gweithio'n agosach gyda Busnes Cymru a llawer o bobl eraill sy'n cael eu datblygu ar wahân. Mae'r holl brosiectau hyn yn cael eu cydlynu trwy gyfrwng grŵp llywio rhaglen. Felly, dim ond yr elfennau hynny sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â lleoliad y mae'r papur hwn yn eu hystyried.

### 3.2 Dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (CGCB)

Yn unol ag uchelgeisiau'r amcanion a ddangosir uchod mae'r dadansoddiad CGCB canlynol yn nodi ystyriaethau allweddol strategaeth Cymru gyfan.




Ffigur 3: dadansoddiad CGCB



### 3.3 Lleoliadau swyddfeydd

Dangosir lleoliad swyddfeydd y Banc Datblygu ynghyd â niferoedd mynegiannol y staff (erbyn 2021) isod:



\* Gofod swyddfa yn cael ei rhannol rannu gyda staff Busnes Cymru - prif swyddfa Wrecsam- Rhagdybir y bydd yr amrediad ar gyfer Wrecsam rhwng 43 a 66


**Ffigur 4: Rhagolygon Staffio Banc Datblygu (2021)**

Mae'r map lleoliad uchod yn seiliedig ar ragweld nifer staff o 187 yng Nghymru erbyn 2021. Mae'n bwysig cydnabod bod y niferoedd hyn yn seiliedig yn bennaf ar dwf y gwyddom amdano sy'n gysylltiedig ag arian cyllido sydd eisoes wedi'i gymeradwyo neu'n debygol iawn o gael ei gymeradwyo. Rhagwelir y bydd mwy o dwf yn digwydd yn y BDC wrth iddo ddechrau darparu cynhyrchion a gwasanaethau newydd ac arloesol i gefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae'r strategaeth hon yn cyd-fynd â'r datganiadau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith y dylid lleoli pencadlys newydd ar gyfer y Banc Datblygu yn ardal Wrecsam. Rydyn ni wedi cael gwybod gan Lywodraeth Cymru bod yn rhaid i'r costau o sefydlu a gweithredu unrhyw swyddfeydd newydd gael eu cynnwys yng nghyllideb y Banc Datblygu.

Mae'r map a ganlyn yn ffigur 5 a'r tabl yn dangos dosbarthiad busnesau ar hyd a lled y rhanbarthau yng Nghymru ynghyd â dosbarthiad staff BDC:

Ffigur 5: dosraniad BBaCh - Cymru



<http://www.itv.com/news/wales/2017-01-31/councils-must-work-together-more-says-minister/>

Source of numbers of businesses: Stats Wales 2017

Rhanbarth	Cyfanswm Poblogaeth	Ardal (Cilomedr Sgwâr)	Pobl ar gyfer pob (Cilomedr Sgwâr)	BBaCh ar gyfer pob rhanbarth	Presenoldeb BDC	BBaCh fel %	Presenoldeb BDC
Gogledd Cymru	680,000	6151	111	61,615	54	30%	29%
Canolbarth Cymru	208,000	6966	29	29,440*			
De Orllewin Cymru	668,000	4809	139	54,090	133	70%	71%
De Ddwyrain Cymru	1,452,000	2808	517	105,095			

Ffynhonnell AAL ALI Poblogaeth 2010 & Ystadegau Cymru 2017 \* Rhan Ddeheuol y Canolbarth yn cael ei wasanaethu'n rhannol gan Swyddfa Caerdydd hefyd

**Tabl 2: presenoldeb BDC v dosraniad BBaCh**

## **De Cymru**

Bydd rhanbarth De Cymru gyfan ynghyd â rhannau mwyaf deheuol y Canolbarth yn cael eu cefnogi o swyddfeydd Llanelli a Chaerdydd.

Rhagwelir y bydd y niferoedd yng Nghaerdydd yn parhau i fod yn weddol gyson, oherwydd y crynodiad o fusnesau yn Ne Ddwyrain Cymru bydd wastad angen cadw nifer sylweddol o swyddogion buddsoddi a'u swyddogion cefnogol yn uniongyrchol yng Nghaerdydd, neu yn y cyffiniau gydol yr amser.

Fodd bynnag, disgwylir i swyddogion sy'n cynnal rôl lle maent yn wynebu cwsmeriaid, yn Llanelli, sy'n cefnogi'r De Orllewin, gynyddu dros 40% i 14 erbyn 2021. Mae hyn cyn y rhoddir ystyriaeth i'r gefnogaeth ychwanegol ar gyfer yr ardal hon a ddarperir o'r adnodd yn swyddfa Caerdydd.

## **Gogledd a Chanolbarth Cymru**

Bydd Gogledd Cymru a'r rhan fwyaf o Ganolbarth Cymru yn cael eu gwasanaethu o'r Pencadlys yn Wrecsam yn ogystal â defnyddio cyd-leoliadau â Busnes Cymru yn Llandudno, Aberystwyth a'r Drenewydd. Er y bydd staff yn yr ardaloedd hyn yn defnyddio Wrecsam fel eu prif swyddfa, bydd angen gweithio o bryd i'w gilydd o'r cyd-leoliadau er mwyn cefnogi busnesau yn y rhanbarthau hyn yn effeithiol. Felly mae Ffigur 4 yn cynrychioli presenoldeb cyfartalog yn yr ardaloedd hynny o staff BDC ar unrhyw adeg. Bydd yr unigolion sy'n gweithio o swyddfeydd Busnes Cymru yn cael eu cefnogi gan y Pencadlys yn Wrecsam, yn ogystal â swyddfeydd Caerdydd a Llanelli, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu gwasanaethu economi wledig Cymru yn effeithiol.


Er bod nifer y staff a ddyrennir i bob swyddfa wedi cael eu hamcangyfrif, mae'n bwysig cydnabod natur beripatetig llawer o rolau swyddi. Mae datblygiadau mewn technoleg eisoes yn golygu fod gweithio o nifer o leoliadau yn gymharol syml a bydd hyn yn parhau wrth i ni symud tuag at 2023. Felly, bydd prif swyddfa aelod o staff yn dod yn llai perthnasol wrth i arferion gwaith mwy hyblyg, a gefnogir gan dechnoleg, gael eu datblygu.

### **3.3.1 Pencadlys Wrecsam**

Bydd Banc Datblygu Cymru yn gweithredu trwy gyfrwng Pencadlys newydd yn ardal Wrecsam. Mae'r trafodaethau cychwynnol ar 3 lleoliad swyddfa posibl yn cael eu cynnal a gobeithir y bydd prydles yn cael ei arwyddo yn ystod mis Medi 2017, a bydd hyn yn caniatáu i'r swyddfa agor ym mis Ionawr 2018. Mae hyn yn gyfle gwych i'r Banc Datblygu ymestyn ei bresenoldeb gyda sylfaen sylweddol yng Ngogledd Cymru.

Bydd y swyddfa yn cael ei staffio i ddechrau gyda thîm o tua 20, a fydd yn rhannol yn cynnwys 10 aelod o staff sydd ar hyn o bryd yn gweithredu y tu allan i Lanelwy a'r Drenewydd. Mae'r broses recriwtio eisoes ar y gweill ar gyfer 4 aelod ychwanegol sy'n cynnwys Rheolwr Cronfa Rhanbarthol, 2 Swyddog Buddsoddi a Swyddog Buddsoddi Cynorthwyol. Bydd hyn yn cael ei ategu gyda phenodiadau / recriwtiadau ychwanegol ar gyfer rolau swyddfa a Chymorth Buddsoddi. Er mwyn sicrhau bod momentwm yn y staffio cynyddol yn y Pencadlys newydd, ar gyfer y holl rolau newydd a'r rhai sy'n amnewid yr hen rai, bydd BDC yn ystyried addasrwydd Wrecsam fel lleoliad yn gyntaf.

Wrth benderfynu ar gynyddu presenoldeb Wrecsam, rydym wedi ystyried trosiant staff a'r twf a ragwelir yn niferoedd y staff i gyflawni cronfeydd newydd. Yna rydym wedi mynda ati i fodelu'r cynnydd yn y niferoedd yn Wrecsam yn seiliedig ar 20%, 30% ac yna 40% o'r holl recriwtio yng Nghymru sy'n cael ei neilltuo i Wrecsam. Penderfynwyd ar yr amrediad hwn oherwydd y cyfyngiadau, lle mae'n rhaid cadw nifer o swyddi newydd mewn rhanbarthau penodol er mwyn sicrhau bod digon o sylw yn cael ei ddarparu ar hyd a lled Cymru (er enghraifft Rheolwr Rhanbarthol yn ymdrin â busnesau bach a chanolig yn Llanelli neu yng Nghaerdydd).



**Ffigur 6: rhagolygon ar gyfer nifer y staff yn Wrecsam dros 4 blynedd**

Mae'r dadansoddiad uchod yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol: Trosiant staff o 14.5% (yn seiliedig ar wir ffigurau'r llynedd); twf staff o 49 erbyn 2020/21; cyllido twf yn unol ag achos busnes BDC.

Yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn ac wrth ddefnyddio rhagdybiaeth bod 30% yn cael eu recriwtio i Bencadlys Wrecsam, rhagwelir y bydd tua 54 o staff â lleoliad eu prif swyddfa yn Wrecsam erbyn 2020/21. Mae hyn o fewn ystod nifer staff a leolir yn Wrecsam rhwng 43 a 66. Fodd bynnag, rhagwelwn y bydd y dadansoddiad uchod yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol: Trosiant Staff o 14.5% (yn seiliedig ar wir ffigurau'r llynedd); staff o 49 erbyn 2020/21; cyllido twf yn unol ag achos busnes BDC, gydag o leiaf 7 yn cael ei neilltuo i'r swyddfa honno ond hefyd yn gweithio allan o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth, Y Drenewydd a Llandudno.

Mae gan Wrecsam gysylltiadau rhagorol gyda Chaer, Lerpwl, Manceinion a Birmingham. Mae'n ymddangos bod y potensial i allu recriwtio'r set iawn o sgiliau yn yr ardal ond nid yw hyn wedi cael ei brofi eto mewn perthynas â'r lefelau cyflog y gall y Banc Datblygu ei gynnig a'r setiau penodol o sgiliau a fydd eu hangen.

Mae'r boblogaeth fusnes yng Ngogledd Cymru wedi'i chanoli yn Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych sy'n gwneud Wrecsam yn lleoliad delfrydol. Mae'r A55 yn rhoi mynediad cyflym a hawdd i arfordir Gogledd Cymru ac Ynys Môn. Er mwyn sicrhau sylw ehangach, bydd staff

BDC, sef y sawl sydd a'u prif swyddfa yn Wrecsam hefyd yn rhannu gofod swyddfa gyda Busnes Cymru yn Llandudno, Aberystwyth a'r Drenwydd.

Bydd Banc Datblygu Cymru yn cael ei gofrestru yng nghyfeiriad swyddfa Wrecsam a thros amser, yn unol ag anghenion a pharhad busnes, bydd gwasanaethau, elfennau o swyddogaethau corfforaethol megis Adnoddau Dynol, strategaeth, cyfathrebu a chyllid yn cael eu sefydlu yno. I ddechrau, bydd un cyfarwyddwr yn cael ei leoli yn barhaol yn swyddfa Wrecsam ynghyd â dau reolwr rhanbarthol. Ar ôl agor y swyddfa, bydd hefyd yn sylfaen reolaidd i'r Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr ac uwch staff eraill.

Yn ogystal â nifer o gyfarfodydd rheolaidd a rhanbarthol, cynhelir y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd bwrdd a nifer o gyfarfodydd uwch reolwyr a strategaeth yn y Pencadlys yn Wrecsam.

Bydd cyfleoedd ar gyfer gweithio ar y cyd a rhannu defnydd o'r swyddfa yn cael eu hystyried yn arbennig mewn perthynas â staff Busnes Cymru ac o bosib gyda'r Ganolfan Gwyddoniaeth Bywyd a ail welodd ail sefydlu ei phwrpas neu fentrau eraill Llywodraeth Cymru.

### **3.3.2 Caerdydd**

Bydd Caerdydd yn parhau i fod yn swyddfa bwysig i'r BDC oherwydd ei lleoliad delfrydol ym Mharth Menter Canol Caerdydd. Gyda 42% o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn Ne Ddwyrain Cymru, mae presenoldeb cryf yn y rhanbarth yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r BDC.

Yn ystod y cyfnod pontio i Bencadlys Wrecsam, tybir y bydd nifer y swyddi sy'n gweithio allan o swyddfa Gaerdydd yn parhau i fod yn weddol gyson gyda ffigwr o 120 yn 2017 ac fe ddisgwyllir 119 yn 2021. Fodd bynnag, pe bai pen uchaf yr ystod yn cael ei gyflawni yn Wrecsam, gallai'r nifer yng Nghaerdydd ostwng i tua 113. Mae'n bwysig nodi nad ydym yn bwriadu trosglwyddo staff o Gaerdydd yn barhaol oherwydd fe all y newid angenrheidiol gael ei gyflawni trwy'r dull mwyaf effeithiol a chost effeithlon trwy gyfrwng trosiant staff naturiol a recriwtio staff newydd, fel sy'n briodol ar gyfer anghenion y busnes, i Bencadlys Wrecsam.

Caerdydd yw'r Brifddinas agosaf i Lundain ac mae'n ganolbwynt ar gyfer gwasanaethau ariannol a phroffesiynol yng Nghymru. Ar gyfer y rhan fwyaf o rolau, mae Caerdydd yn fuddiol o ran recriwtio a chadw, ond mae yna anawsterau wrth ddenu a chadw rhai rolau gwerthfawr iawn o'r farchnad oherwydd rhai cyfyngiadau tâl.

Mae Caerdydd yn darparu mynediad cyflym a hawdd, ar hyd yr M4, yr A470 a'r A465, at y 12 Awdurdod Unedol yn Ne Ddwyrain Cymru ac Abertawe, a'r rhain, gyda'i gilydd yw'r ardaloedd mwyaf poblog yng Nghymru. Mae'r daith ar y trê'n i Lundain ychydig dros 2 awr a bydd 14 munud arall yn fyrrach unwaith y bydd y gwaith o drydaneiddio'r prif reilffordd yn cael ei gwblhau.

Mae Caerdydd hefyd yn cynnig agosrwydd at Weinidogion Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru ar draws pob Adran sy'n arbennig o bwysig wrth i gynhyrchion a gwasanaethau newydd gael eu datblygu a'u cyflwyno er budd busnesau a dinasyddion ar hyd a lled Cymru.

Mae'r opsiynau ar gyfer rhesymoli lleoedd swyddfa yng Nghaerdydd, i adlewyrchu'r newidiadau hyn ac er mwyn lliniaru costau, yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

### **3.3.3 Llanelli**

Rhagwelir y bydd y staff sy'n wynebu cwsmeriaid yn Llanelli yn cynyddu o 8 yn 2017 i 14 yn 2021 i wasanaethu 22% o'r holl fusnesau bach a chanolig yng Nghymru sydd wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Mae swyddfa Llanelli, a

leolir yng Nghanolfan Fenter Y Goleudy, yn ddolen hanfodol i'r nifer cynyddol o fusnesau yng Ngorllewin Cymru ar gyfer pob aelod o staff y Banc Datblygu sydd yno.

Dim ond pum munud i ffwrdd o draffordd yr M4, mae Canolfan Y Goleudy yn darparu swyddfa uwch-dechnoleg a chyfleusterau cyfarfod ar gyfer y Banc Datblygu, ynghyd â hygyrchedd at glystyrau poblogaethau busnes yn Rhanbarth Dinas Bae Abertawe. Mae tref Llanelli wedi ei chysylltu'n agos gydag Abertawe a Chastell-nedd trwy gyfrwng yr M4, gyda Chaerfyrddin trwy gyfrwng yr A48, gyda Doc Penfro trwy gyfrwng yr A477 a doc Abergwaun trwy gyfrwng yr A40. Mae pob un o'r llwybr ffyrdd hyn yn darparu mynediad at rai o gyrchfannau twristiaeth mwyaf poblogaidd Cymru a meysydd buddsoddi allweddol i Lywodraeth Cymru.

Mae presenoldeb y Banc Datblygu yn yr ardal hon yn gynyddol bwysig wrth i brosiectau o Fargen Dinas Bae Abertawe sy'n werth £1.3 biliwn o fewn themâu Cyflymu'r Economi, Gwyddorau Bywyd a Lles, Ynni a Gweithgynhyrchu Smart gael eu cyflawni. Bydd hyn yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer y busnesau sy'n cychwyn sy'n cael mynediad at Glwstwr Digidol Creadigol a mentrau sy'n gyfoethog mewn eiddo deallusol sy'n defnyddio pentref Gwyddorau Bywyd a Lles Llanelli.

Wrth i'r Banc Datblygu barhau i wella ei effaith yn ardal Gorllewin Cymru, bydd yn cynorthwyo i ymgodi £1.8 biliwn Bargen Dinas Bae Abertawe mewn GYC ar gyfer y rhanbarth a chynhyrchu tua 10,000 o swyddi newydd.

### **3.3.4 Y Drenewydd, Aberystwyth a Llandudno**

Yn y Cyfarfod Llawn a gynhaliwyd ar y 18fed o Orffennaf, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet 'Rwy'n dymuno gweld bod gan y Banc Datblygu bresenoldeb cryf nid yn unig yng Ngogledd Cymru ond ar draws Cymru gyfan. Yn wir, yn aml mae gan gymunedau gwledig grynodiad uchel o ficro-fusnesau sy'n brwydro i gael gafael ar gyllid gan fanciau sydd ar y stryd fawr. Felly, os unrhyw beth, bydd Banc Datblygu Cymru yn fwy perthnasol i rai cymunedau gwledig na rhai o'n cymunedau trefol, ac am y rheswm hwnnw, rwy'n credu ei bod hi'n holl bwysig bod y Banc Datblygu yn hygyrch i fusnesau yn ein hardaloedd mwy gwledig.'

Aeth ymlaen i ddweud y byddai'r Banc Datblygu '... yn sicrhau bod Cymru gyfan yn cael mynediad hawdd a mynediad corfforol, at gyngor a chefnogaeth y Banc Datblygu, ac felly mae darn o waith yn digwydd ar hyn o bryd gyda Busnes Cymru yn edrych ar sut y gallant hwy sicrhau eu bod yn manteisio ar fuddiannau'r ddwy ochr ac, o bosib, sut y gallant gyd-leoli gwasanaethau, oherwydd yn ein barn ni, p'un a ydych chi'n unigolyn sy'n ceisio dechrau busnes, neu p'un a ydych yn fusnes busnes sy'n bodoli eisoes sy'n ceisio tyfu busnes, dylech allu galw mewn un porth i gael y cyngor a'r gefnogaeth sydd ei angen arnoch chi.'

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon i Gymru, mae'r BDC yn bwriadu cyd-leoli staff ochr ochr â Busnes Cymru yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Y Drenewydd, Aberystwyth a Llandudno. Bydd hyn yn sicrhau, wrth greu swyddfa Wrecsam, bod y Banc Datblygu yn cynnal presenoldeb cryf yn Y Drenewydd i sicrhau y gall barhau i fodloni anghenion busnesau yng Nghanolbarth Cymru. Amcangyfrifir y byddai oddeutu 7 aelod o staff yn gweithredu ar y cyfan o Swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar unrhyw adeg. Tra bydd eu prif swyddfa yn Wrecsam, bydd eu ffocws ar Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Fe'u cefnogir hefyd gan y timau buddsoddi yn Wrecsam er mwyn sicrhau bod gan bob ardal fynediad llawn at y gwasanaethau a gynigir gan y Banc Datblygu.

Yn ogystal, bydd llety neu ofod swyddfa a rennir hefyd yn cael ei annog ymysg personél Busnes Cymru sy'n dymuno gweithredu o swyddfeydd BDC.

Bydd presenoldeb yn Aberystwyth, Y Drenewydd a Llandudno yn cynorthwyo i gynnwys Gwynedd, Ceredigion a Phowys, gan ddarparu cysylltiadau agosach a gwasanaeth wyneb yn wyneb i'r busnesau yn yr ardaloedd hyn. Os yw'r BDC i fod ar gael ar gyfer Cymru gyfan, rhaid iddo fod â phresenoldeb ar draws Gorllewin a Chanolbarth Cymru er mwyn sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn llawn ag anghenion yr economi wledig.

Mae yna ddau fater penodol y mae angen eu datrys o ran defnyddio gofod swyddfa a rennir gyda Llywodraeth Cymru. Yn gyntaf, mae clirio'r materion diogelwch angenrheidiol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall staff BDC gael mynediad hawdd i adeiladau Llywodraeth Cymru. Gallai hyn olygu bod staff BDC yn cael eu harchwilio gan ddiogelwch Llywodraeth Cymru er mwyn cael y 'pas' angenrheidiol.

Mae'r ail fater yn ymwneud ag argaeledd gofod swyddfa ar gyfer meddiannu desgiau a rennir, a mynediad at gyfleusterau TG, argraffu a sganio. Oherwydd natur gwaith Busnes Cymru lle bydd y timau'n treulio cryn dipyn o amser ar y ffordd, ni ddylai fod yn broblem dod o hyd i ofod i'w rannu. Efallai y bydd mynediad TG yn fwy o her; fodd bynnag bydd staff BDC yn defnyddio eu gliniaduron diogel eu hunain a bydd angen cysylltiad WIFI arnynt. Bydd mynediad at argraffwyr a sganwyr yn hanfodol ac mae'r drafodaeth ynghylch sut y bydd hyn yn gweithredu yn cael ei chynnal gyda Llywodraeth Cymru.

#### **4. Lleoliadau a dulliau gweithredu eraill**

Ynghyd â phresenoldeb corfforol effeithiol ar hyd a lled Cymru, bydd strategaeth Cymru-gyfan hefyd yn defnyddio dulliau gweithredu eraill i sicrhau hygyrchedd ar gyfer holl fusnesau Cymru.

##### **Hygyrchedd ar-lein**

Un o brif flaenoriaethau BDC yw gwella mynediad cwsmeriaid a phrofiad cyffredinol trwy well presenoldeb ar-lein. Dechreuodd camau cyntaf y dull gweithredu hwn 12 mis yn ôl pan gyflwynwyd proses ymgeisio awtomatig ar-lein am symiau o dan £10k. Bydd swyddogaeth bellach yn cael ei hychwanegu wrth i'r BDC gael ei lansio ym mis Hydref gyda chyfarpar ymgeisio ar-lein ar gyfer holl anghenion busnes.

Wrth symud ymlaen bydd ffocws gweithredol yn cael ei gynnal wrth ddatblygu atebion digidol i sicrhau bod y sefydliad yn cwrdd â disgwyliadau cwsmeriaid yn gyson ac yn darparu hygyrchedd ar gyfer holl fusnesau Cymru.

##### **Rhwydwaith o gynghorwyr**

Er mwyn rhoi cyfle pellach i BDC gael presenoldeb ym mhob rhanbarth, rhoddir ystyriaeth i greu rhwydwaith o 'asiantaethau' ar hyd a lled Cymru. Byddai hyn yn cael ei gyflawni trwy gyfrwng rhwydwaith o gynghorwyr a fyddai yn gwbl gyfarwydd gyda'r broses o ymgeisio ar-lein a'r cynhyrchion a'r gwasanaethau a gynigir gan y BDC. Mae'r dull hwn yn caniatáu i'r BDC foderneiddio mynediad ei sianelar gyfer busnesau yng Nghymru. Bydd y BDC yn ystyried y strwythur gorau ar gyfer y rhwydwaith hwn a bydd yn ystyried defnyddio cwmnïau rhanbarthol megis cyfrifwyr neu gyfryngwyr eraill ochr yn ochr â chynghorwyr Busnes Cymru.

##### **Cyd-leoli gyda chontractwyr Busnes Cymru**

Yn ogystal â chyd-leoli staff Busnes Cymru yn lleoliadau swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Llandudno, Aberystwyth a'r Drenewydd, bydd cyfle i ddefnyddio gofod swyddfa gyda chontractwyr Busnes Cymru, fel 'Winning Pitch' a 'Business in Focus,' hefyd yn cael eu harchwilio. Bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o'r prosiect gwaith sydd ar y gweill gyda Busnes Cymru i sicrhau gwell cydlynad rhwng gweithrediadau'r ddau sefydliad.

### **Mwy o ganolfannau BDC neu swyddfeydd lloeren**

Rhagwelir y bydd angen canolfannau (hybiau) swyddfeydd bach hefyd mewn ardaloedd eraill o Orllewin Cymru a'r Cymoedd er mwyn cefnogi'r ddarpariaeth ranbarthol. Er enghraifft, i gefnogi'r ffocws strategol ar gyllid micro-fusnes, rhoddir ystyriaeth i leoli swyddfa bellach yn ym ardal Rhondda Cynon Taf, sy'n gartref i gyfran uchel o fusnesau micro a byddai hefyd yn gwasanaethu Awdurdodau Unedol cyfagos Torfaen, Caerffili a Blaenau Gwent. Wrth benderfynu ar yr ateb gorau posibl, bydd amseru'n ffactor hanfodol felly bydd dull gweithredu fesul cam tuag at agor swyddfeydd newydd yn debygol o olygu bod yna lai o aflonyddwch a gwell gwerth am arian.

## **5. Costau a gweithrediadau**

### **5.1 Cyllid ariannu**

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y dylai'r Banc Datblygu reoli'r trawsnewid i'r Pencadlys newydd yn Wrecsam o fewn rhagolygon ei gyllidebau. Mae'r model ar gyfer achos busnes y Banc Datblygu yn rhagweld gwarged bach yn y costau gweithredu dros ei 5 mlynedd gyntaf ac mae'r costau ar gyfer Wrecsam wedi cael ei gynnwys yn seiliedig ar drosglwyddo fesul cam yn ystod y cyfnod hwnnw.

I ddechrau, roedd achos busnes BDC ddim ond yn cyrraedd y pwynt hwnnw lle na fyddai angen cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer costau gweithredu petai cronfeydd newydd sylweddol yn cael eu cymeradwyo ac felly byddai'r incwm ffioedd yn disodli cefnogaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru. Oherwydd bod nifer o gronfeydd newydd wedi cael eu cymeradwyo a gyda'r cynnydd yng Nghronfa Busnes Cymru a ariennir gan yr UE, ni fydd yn ofynnol yn awr i'r Banc Datblygu gael cefnogaeth Llywodraeth Cymru am gostau gweithredu a gellir cynnwys costau trosglwyddo fesul cam i'r strategaeth leoli newydd o fewn y cyllidebau presennol.

Yn dilyn adolygiad o'r goblygiadau ar gyfer trefnu dull gweithredu fesul cam neu un a fyddai'n ymdebygu i'r 'ffrwydriad mawr' tuag at greu Pencadlys Wrecsam, mae'r opsiwn diweddarach wedi cael ei ddi-ystyrru oherwydd y gost (amcangyfrifir bod hynny'n o leiaf £5m) a risg annerbyniol o ran cyflawni busnes.



Mae'r BDC yn gyfrifol am gyflawni nifer o gronfeydd sylweddol ar gyfer cefnogi busnesau bach a chanolig yn ystod cyfnodau ansicr economaidd. Ni all y Banc Datblygu fforddio amharu ar Gronfa Busnes Cymru £170.9m a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd ar adeg cyflawni mor allweddol yn ei hanes. Mae'n rhaid iddo hefyd gynyddu graddfa ei allu i ddarparu mynediad at gyllid mawr ei angen i fusnesau trwy gyfrwng y Gronfa Buddsoddi Hyblyg newydd £100m yng Nghymru a chronfeydd eraill sydd heb gael eu cyhoeddi eto. Byddai costau dilyn dull gweithredu'r 'ffrwydriad mawr' yn sylweddol, ni ellid diwallu'r costau o fewn yr adnoddau presennol ac ni fyddai'n cynnig unrhyw enillion hirdymor amlwg.

## **5.2 Materion gweithredol**

Mae'n holl bwysig nad yw gweithrediadau yn cael eu haflonyddu yn ystod y cyfnod pontio a bod yr holl gronfeydd a gwasanaethau yn parhau i gael eu rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon. Pan fo timau yn gweithredu mewn dau leoliad, mae'n hanfodol cynnal cyfathrebiadau llawn yn enwedig yn ystod camau cynnar y cyfnod pontio. I gynorthwyo gyda hyn, bydd Presenoldeb Ffôn (Tele-bresenoldeb) yn cael ei gyflwyno ym mhob prif leoliad i ganiatáu cyfathrebu wyneb-yn-wyneb dibynadwy, hygyrch rhwng y safleoedd.

Bydd goruchwyliaeth uwch reolwyr ym mhob lleoliad swyddfa yn cael ei gynnal gan ganolbwyntio'n benodol ar sicrhau presenoldeb cyson cyfarwyddwyr ym Mhencadlys Wrecsam, yn ogystal â'r cyfarwyddwr a fydd â'u sylfaen barhaol yno.

Fel Cyllid Cymru, bydd y Banc Datblygu yn gweithredu system reoli perfformiad lle caiff cynnydd tuag at ddangosyddion perfformiad allweddol manylach ei ddirprwyo'n llawn a'i reoli'n agos. Bydd sylw penodol yn cael ei ganolbwyntio ar swyddogaethau neu rannau o swyddogaethau sydd yn y broses o drosglwyddo i'r Pencadlys newydd i sicrhau, nid yn unig bod y safonau gwasanaeth hynny yn cael eu cynnal ond hefyd bod y safonau gwasanaeth hynny yn parhau i gynyddu yn unol ag amcanion strategol y Banc Datblygu.

## 6. Amserlen weithredu

